



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Y Plas

**Y Plas
Llanelli
SA15 4LP**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13/04/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Y Plas

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleuedd cofrestredig	30
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	16 ac 17 Gorffennaf 2018
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae rheolwr profiadol yn arwain tîm staff ymroddedig sy'n cael ei werthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau, a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn defnyddio ei ymweliadau Rheoliad 73 a'i offer archwilio ansawdd i sicrhau bod ganddo drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae iechyd a llesiant unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cadarnhau hyn. Mae cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ond mae angen diweddarau rhai manylion. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n lân heb unrhyw aroglau drwg, ond gallai ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol lechyd Cyhoeddus Cymru.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda, ac yn gofalu am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Er bod cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am ofynion a hoffterau pobl, mae angen mwy o fanylion am gyflyrau iechyd unigolion. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod pobl yn parhau i fod mor iach â phosib.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith i sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymagwedd gywir at ofal. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a chânt eu cefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae staff gofal yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i amddiffyn pobl a chânt eu hatgyfnerthu gan bolisiâu sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae'r gwasanaeth yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, er y gallai ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar.

Cydnabyddir dewisiadau a barn y bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl addurno eu hystafelloedd gwely ag eitemau personol, gallant ddewis eu prydau bwyd, a gallant godi a gorffwys pan fydd yn gyfleus iddynt. Mae'r amgylchedd yn cynnig nifer o ardaloedd cymunol i unigolion gwrdd â'u hymwelwyr a meithrin cyfeillgarwch â phobl eraill sy'n byw yn Y Plas.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff. Gwnaethant ddweud wrthym: *“Maen nhw [y gweithwyr gofal] mor garedig, does dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw”* ac *“Mae'r gofalwyr yn dda iawn, yn wir.”* Mae aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld hefyd yn canmol y gwasanaeth, gan gynnwys, *“Mae'n cael ei redeg yn dda, mae'r staff wirioneddol yn gofalu am y preswylwyr. Maent yn adrodd am unrhyw bryderon. Nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda'r gofal yr wyf wedi'i weld”* ac *“Maent yn gofalu am y preswylwyr yn dda.”* Roedd gweithgaredd aerobeg sgarff wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan y bobl a'r staff. Gwelwyd pawb a gymerodd ran yn chwerthin ac yn mwynhau eu hunain. Yn ogystal, roedd gweithiwr gofal yn eistedd gydag unigolyn yn edrych ar hen ffotograffau ac yn siarad amdanynt yn brofiad yr un mor bleserus i'r ddau ohonynt.

Mae gan staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwyddant am hanes y bobl a'u hanghenion gofal penodol a'u hoffterau dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau cefnogi unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym: *“Mae'n hyfryd, dwi'n hapus yma – mae gweld y trigolion yn hapus, gan roi 100% iddyn nhw, mor bwysig”* ac *“Mae'n deimlad gwych gallu helpu'r preswylwyr, rydym ni'n cael amser mor hyfryd.”*

Mae'r holl bobl y buom yn siarad â nhw yn dweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Y Plas ac yn teimlo y gallant godi pryder os oes angen. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Byddaf yn siarad â'r gofalwyr neu'r [rheolwr] os oes gennyf gŵyn”* a *“Codais bryder gyda'r rheolwr sydd bellach wedi cael sylw.”* Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn yr wybodaeth a roddir i'r bobl a/neu eu perthnasau pan fyddant yn symud i'r gwasanaeth. Mae hysbysiadau mewn manau cymunol hefyd yn esbonio sut i wneud cwyn.

Mae gan gynlluniau gofal a chymorth fanylion da ac maent yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Fodd bynnag, dylai cynlluniau adlewyrchu'n gywir anghenion presennol yr unigolyn er mwyn sicrhau bod ei anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu. Bydd hyn hefyd yn helpu gweithwyr i gael gwell dealltwriaeth o hanes yr unigolyn. Lle bo modd, mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn ymwneud â'u gofal. Mae'r gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r bobl ond mae angen cofnodi hyn yn well yn eu cofnodion gofal.

Mae'r staff gofal yn ymateb i unrhyw ymholiadau gan bobl mewn modd amserol ac mae rhyngweithiadau yn gyfeillgar, yn barchus, heb eu rhuthro. Mae cyfran o'r tîm staff yn gallu siarad Cymraeg, fel y gwelsom yn ystod yr arolygiad.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau dyddiol. Dywedodd pobl wrthym, *“Mae'r bwyd yn ardderchog, gallaf bob amser gael rhywbeth gwahanol”* ac *“Mae'r bwyd yn dda iawn yma.”* Mae gan un unigolyn hoffter arbennig o brydau penodol a darperir ar gyfer hyn. Caiff bwydlenni eu diweddarau yn ôl y tymor ac mewn ymgynghoriad â phobl. Yn ôl pob golwg, mae adegau bwyd yn

ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn. Mae prydau yn cael eu cyflwyno'n dda, maent yn boeth, ac mae dewisiadau ar gael yn rhwydd.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risg a berir gan heintiau. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn canllawiau cyfredol lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risg i iechyd a diogelwch pobl. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn unigol ac ar gael yn rhwydd. Mae larymau tân o fewn cyrraedd ac mae pobl yn ymateb iddynt mewn modd amserol pan fyddant yn canu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi'u lleoli ar draws y gwasanaeth. Mae gweithdrefnau profi am COVID-19 ar waith ar gyfer pob ymwelydd. Mae mesurau priodol a diogel i hwyluso ymweliadau gan berthnasau a ffrindiau. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gan staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw aroglau drwg.

Yn bennaf, mae'r amgylchedd yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae yna nifer o ardaloedd i bobl gyfarfod a chymdeithasu sy'n cefnogi cyfeillgarwch. Dywedodd y bobl wrthym, *“Mae'n lolfa fach hyfryd i ni gwrdd a chael hwyl”* ac *“Rwy'n aros i fy ffrind ymuno â mi.”*

Mae'r dodrefn a'r gosodiadau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ystafelloedd gwely pobl wedi'u haddurno ag eitemau o ddodrefn, lluniau, ffotograffau ac eitemau personol sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae gan ddrysau ystafelloedd gwely lun o'r unigolyn neu rywbeth sy'n adlewyrchu ei fywyd neu ei ddiddordebau er mwyn cynorthwyo cyfeiriadedd. Er bod yr ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân, maent yn edrych yn glinigol ac nid ydynt yn groesawgar iawn i bobl fwynhau cael bath.

Mae'r gerddi cymunol yn cynnwys mannau deniadol i'r bobl a'u hymwelwyr eistedd a chymdeithasu yn ystod tywydd cynnes. Mae balwstrad gwydr newydd ar hyd rhan o'r ardd yn cynnig lle diogel i bobl allu ei ddefnyddio. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal parti stryd yn yr ardal hon i ddathlu Jiwbilf Platinwm y Frenhines.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac wedi cynnal yr ymweliadau Rheoliad 73 bob tri mis. Mae AGC wedi cael copïau o'i hadroddiadau, sy'n dangos ei bod yn siarad â'r bobl a staff fel rhan o'i hymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhaodd staff a phobl hyn gyda ni. Dywedodd un, *"Mae hi [yr unigolyn cyfrifol] yn ymweld yn rheolaidd, bob amser yn siarad â staff a phreswylwyr."* Mae yno ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau. Mae'r camau o'r archwiliadau yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cael goruchwyliaeth reolaidd gan yr unigolyn cyfrifol ac mae'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda ganddo.

Mae'r staff yn gymwys ac yn wybodus ac yn cael eu cefnogi i ofalu am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent yn ei fynychu ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion ac o arferion symud a thrin diogel. Mae cofnodion y staff yn dangos eu bod yn cael cyfnod sefydlu da, goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Rwy'n cael goruchwyliaeth bob dau i dri mis. Mae gennyf gopi ysgrifenedig o'm goruchwyliaeth."* Cedwir contractau cyflogaeth staff yn yr adran Adnoddau Dynol, ond dylent fod yn hawdd eu cyrchu ar gyfer eu harchwilio.

Mae'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn canmol y staff a'r rheolwr, gan gynnwys: *"Maen nhw'n fendigedig yma. Allwn i ddim gofyn am ddim gwell", "Mae hwn yn gartref ardderchog – dwi wir yn golygu hynny", "Bu gwelliannau i'r cyfathrebu, ac mae'r gofawyr yn dda iawn."* Mae'r staff yn siarad yn gynnes am y rheolwr ac am weithio yn y gwasanaeth. Dywedasant wrthym: *"Mae hi [y rheolwr] yn hyfryd, gallwch siarad â hi os oes gennych chi unrhyw bryderon", "Mae hi [y rheolwr] yn hyfryd. Rwy'n golygu hynny mewn gwirionedd. Yn hawdd siarad â hi ac yn garedig, a bydd yn torchi ei llewys ac yn rhoi help ymarferol."* *"Rydyn ni i gyd yn gweithio'n dda gyda'n gilydd ac mae hwn yn gartref hyfryd, y ffordd mae'n cael ei redeg, y staff, preswylwyr, mae'n lle hapus i weithio"*. Drwy gydol cyfnod yr arolygiad, bu'r staff yn canu gyda'r preswylwyr ac ymhlith ei gilydd, gan ychwanegu at yr awyrgylch croesawgar a hapus yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac maent yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau i ni o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n cael eu hadolygu'n gyson ar waith i gynorthwyo staff.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 13/06/2022